Polisi Bwlio Ysgol Dolbadarn Medi 2018

Mae plant ysgol Dolbadarn wedi creu Polisi Bwlio ac mae'r polisi yma yn egluro beth rydym ni am wneud er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn yr ysgol yn hapus a diogel.

Mae'r ysgol yn addo:

- Sicrhau bod Siarter Amser Chwarae yn cael ei arddangos
- Trefnu bod amser chwarae yn amser hapus i bawb a bod cyfle i bawb gyd-chwarae
- Ein bod yn gwneud yn siŵr bod rhywun ar gael i helpu e.e. y Bydis Buarth a holl staff yr ysgol
- Gwneud yn siŵr bod y neuadd ginio yn le braf i fwyta a bod yr awyrgylch yn gartrefol
- Sicrhau bod rhywun ar gael i blant allu troi atyn nhw am gymorth yn yr ysgol ac ar y buarth
- Sicrhau bod bocs bwrw bol ar gael i blant allu ddweud eu pryderon.
- Cymeryd unrhyw achos o fwlio o ddifrif a gweithredu yn syth

Hefyd byddwn ni'n dysgu:

Beth i'w wneud os oes rhywun yn ein bwlio
Sut i drafod yr hyn sydd yn ein poeni
Sut i siarad gyda ein rhieni ac athrawon
Pwysigrwydd siarad a pheidio cadw pethau y tu mewn
Rhifau ffôn argyfwng er mwyn cysylltu gyda phobl broffesiynol

Y Gymuned – byddwn yn rhannu ein syniadau gyda'n teuluoedd a'n ffrindiau

Annog rhieni i drafod bwlio gyda'r plant
Gwahodd rhieni i ffonio os oes pryder am blant
Annog pobl fel NSPCC a Childline i yrru posteri er mwyn eu harddangos

Rydym ni fel cyngor ysgol yn cytuno gyda'n polisi

Enw Cadeirydd y Cyngor Ysgol: Jack Lawes

Cadeirydd Y Corff Llywodraethol_____

Pennaeth_____

Dyddiad:…….

NSPCC HELPLINE 0808 800 5000 help@nspcc.org.uk

ChildLine 0800 1111